Cylchlythyr #4: Gwanwyn 2020

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

Pencampwyr Rhywogaethau

Aelodau'r Senedd yn codi llais dros rywogaethau sydd dan fygythiad ac mewn perygl

Anfonwch eich ffotograffau gorau o fyd natur atom ar Ddiwrnod Bioamrywiaeth!



Eleni, byddwn yn dathlu Diwrnod Bioamrywiaeth mewn ffordd ychydig bach yn wahanol, ond ni fu erioed fwy o reswm i ddangos ein cariad tuag at fyd natur a bywyd gwyllt.

Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru'n galw ar ein AS Pencampwyr Rhywogaethau ardderchog **i drydar llun o 'Bioamrywiaeth yn Fy Libart I'** ar ddydd Gwener 22 Mai gyda'r hashnod #BiodiversityInMyBackYard neu #BIMBY! Er na allwn ymweld â'n hoff olygfeydd hardd neu Barciau Cenedlaethol gallwn chwilio yn ein gerddi ein hunain neu ein parciau lleol am fyd natur ar riniog ein drws.

Felly cofiwch rannu gyda ni eich hoff flodau, chwilod, coed, adar a mwsogl – mae pob rhan o fioamrywiaeth yn bwysig a po fwyaf yr amrywiaeth, y mwyaf gwydn fydd pob ecosystem. Edrychwn ymlaen yn fawr i'w gweld!



Peidiwch ag anghofio trydar #BiodiversityInMyBackYard ar Ddiwrnod Bioamrywiaeth, dydd Gwener 22 Mai!

Pwy yw Pencampwyr Rhywogaethau'r Senedd?

Gwiber - Hefin David
Môr-wennol y gogledd - Hannah Blythyn
Onnen - David Melding
Pâl - Paul Davies
Yr Eog - David Rees
Cacynnen y llus - Leanne Wood
Chwilen olew ddu - Rebecca Evans
Dolffin trwyn potel - Joyce Watson
Y brithyll- Kirsty Williams
Brân goesgoch - Rhun ap Iorwerth
Llyffant dafadennog - Jeremy Miles
Gylfinir - Mark Isherwood
Pathew - Llŷr Gruffydd
Llysywen Ewropeaidd - Dawn Bowden
Corryn rafft y ffen - Caroline Jones
Misglen befriog yr afon - Nick Ramsay
Ystlum pedol mwyaf - Angela Burns
Morlo llwyd - Dai Lloyd
Llamhidydd - Janet Finch-Saunders
Draenog - Lee Waters
Britheg frown - Jane Hutt
Llyngyren ddiliau - Siân Gwenllian
Cornchwiglen - Huw Irranca-Davies
Ystlum pedol lleiaf - Suzy Davies
Wystrys brodorol - Julie James
Troellwr mawr - Vikki Howells
Britheg berlog - Russell George
Bele - Eluned Morgan
Gwiwer - Darren Millar
Y siwin - Elin Jones
Hwyaden yr eithin - Jayne Bryant
Glesyn bach - Mike Hedges
Migwyn - Alun Davies
Gwennol ddu - Jenny Rathbone
Llinos y mynydd - Siân Gwenllian
Llygoden bengron y dŵr - John Griffiths
Madarch cap cwyr - Julie Morgan
Cennin Pedr Cymreig - Vaughan Gething
Cleren fai felen - Mohammad Asghar
Bras melyn - Andrew RT Davies

Cyfranwyr: Liz Smith, WEL & Dai Rees, Butterfly Conservation.
Tynwyr lluniau: Lyndsey Maiden (Bluebells, P3); Plantlife (Every Flower Counts, P2); Moth Atlas, Butterfly Conservation (P3); Liz Smith, WEL (all other images).

Sut allwn ni rwystro ‘apocalyps pryfed’?



Dr Sarah Beynon yn rhoi ei chyflwyniad yn y cyfarfod

Sut allwn ni fynd i’r afael â mater bioamrywiaeth byd-eang? Cyfarfu’r Grŵp Traws Bleidiol ar Fioamrywiaeth ym mis Hydref i drafod ein poblogaethau o bryfed sy’n prinhau a’r hyn allwn ni ei wneud i’w cynnal. Roeddem yn falch iawn o groesawu Dr Sarah Beynon o’r Fferm Bryfed, Sir Benfro, a soniodd wrthym sut mae ei fferm weithredol yn sicrhau bod pryfed yn ffynnu yn ogystal â chael ei defnyddio ar gyfer ymchwil, addysg a chefnogi ffermydd eraill gyda ‘Dung Beetles Direct’. Mae hwn yn sicrhau bod amaethyddiaeth fel arall yn elwa o’r ailgylchwyr gwastraff naturiol rhyfeddol yma.

Clywsom hefyd oddi wrth Clare Dinham, Buglife, am y prif resymau dros y prinhad hwn a’r camau hanfodol sydd eu hangen i wrthdroi hyn. Yng Nghymru, mae gan y cynllun nwyddau cyhoeddus arfaethedig dros ffermio cynaliadwy botensial enfawr i wobrwyo’r camau y mae ffermydd yn eu cymryd i gynyddu poblogaethau o bryfed. Trafododd Cadwraeth Eog a Brithyll sut all gwyddoniaeth dinasyddion gofnodi ein pryfed afon a’r ffordd all infertebratau ddatgelu ansawdd dŵr ein hafonydd. Mae cyflwyniadau ar-lein yma.


Cyswllt Amgylchedd Cymru
Wales Environment Link
The network for environmental, countryside and heritage NGOs in Wales

Briefing for AMs
What can Wales do about Insect Declines?

Insect populations are in crisis. Recent studies[1][2] paint a grim picture of the decline of essential invertebrates across the planet; current declines could lead to the extinction of 41% of the world’s insect species over the next few decades. Data on many groups of insects in limited, however for species that are well monitored the indications are shocking. 60% of Welsh butterflies are in long term decline[3], seven species of Welsh bees are known to have gone extinct, and five more are at risk of extinction[4].

Meaning: ‘invertebrates’ – animals without backbones, including insects, bees, caterpillars, butterflies, moths, beetles, wasps, spiders, snails and worms.

What needs to be done to halt and reverse insect declines in Wales?

- Protect the most important areas for insects:
  - Protect the best remaining wildlife sites and ensure they are managed in the right way to promote their wildlife interest, by helping teach land managers how to best maintain these sites.
  - Expand our best wildlife sites; identify and act upon opportunities to increase the size of the remaining areas of nature rich habitats.
  - Remaining areas of wildlife-rich habitat and existing high Nature Value agriculture must be maintained and promoted.
  - Local and national planning guidance should be clear that developments are expected to protect the most important sites for insects, protect our most threatened species, and incorporate wildlife-friendly green infrastructure.
- Reconnect isolated wildlife-rich sites at a landscape scale across Wales. Nature recovery networks, such as B-Lines, must be identified and integrated into existing schemes to target habitat restoration and creation, and increase opportunities for species to move around the countryside. In short, we need to restore, expand and reconnect our best wildlife sites.
- As any future land management schemes will only become fully adopted by 2025, we need an overarching agricultural vision now that aims to make our food and farming system more wildlife friendly and sustainable. A public goods system based on ecosystem services would protect our soils and watercourses. Including:

Mae’r Rhwydwaith yn galw am weithredu i warchod cynefinoedd pryfed, creu rhwydweithiau adferiad byd natur, rhoi cynlluniau biosicrwydd ar waith a lleihau’n ddifrifol y defnydd o blaladdwyr lle bynnag bod hynny’n bosib. Gallwch ddarllen mwy am ein gofynion a’r buddion i bryfed yn ein brîff.

Sicrhewch bod Pob Blodyn yn Cyfrif gyda Plantlife!

Mae Plantlife yn annog pobl i gymryd rhan yn eu project gwyddoniaeth dinasyddion eleni, rhwng 23-31 Mai, i gyfrif pob blodyn ar eu lawnt. Maen nhw’n dymuno dyfalu pa flodau gwyllt yw’r rhai mwyaf cyffredin a faint o neithdar a gynhyrchir ganddyn nhw ar gyfer ein peillwyr.

Ni alla’i fod yn haws cymryd rhan ac fe all y teulu i gyd wneud eu rhan! Y cwbl sy’n rhaid i chi ei wneud yw rhoi’r gorau i dorri’r lawnt ym mis Mai, i ganiatáu i’r planhigion llai gael cyfle i dyfu (a byddem yn annog pawb i beidio torri mor aml er mwyn gadael i’r blodau gwyllt yma flodeuo!). Yna, mesurwch un metr sgwâr ac, wrth ddefnyddio taflenni cofnodi ac adnabod Plantlife, gallwch gyfrif faint sydd yno o 26 o flodau cyffredin y lawnt.




Mae hi mor hawdd â hynny! Mae Plantlife yn argymell cwblhau ychydig o sgwariau i sicrhau canlyniadau manwl gywir. O ddata pobl, bydd Plantlife yna’n dyfalu Mynegai Neithdar Cenedlaethol i ddangos sut mae ein lawntiau yn helpu ein peillwyr.

Gallwch gofrestru yma i gymryd rhan a dysgu mwy drwy gyfrwng y cwestiynau a ofynnir amlaf.

Pa mor dda ydych chi'n adnabod gwyfynod?

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd yr atlas cyntaf erioed o wyfynod mwyaf Prydain ac Iwerddon a dyma adeg ddelfrydol i ddysgu mwy am y pryfed hardd hyn nad ydym yn eu llawn werthfawrogi. Mae'r atlas yn cynnwys dros 25 miliwn o gofnodion gwyfynod o Gynllun Cofnodi Gwyfynod Cenedlaethol Cadwraeth Gloÿnnod Byw (CCGC) a'r set data MothsIreland. Mae Cadwraeth Gloÿnnod Byw'n ddiolchgar i bob cofnodydd gwyfynod sydd wedi anfon eu darganfyddiadau i mewn, yn ogystal â'r sawl sy'n eu mewngofnodi yn y rhwydwaith Cofnodi Gwyfynod Sirol.

Mae'r atlas wedi ei ddylunio'n hardd gyda dros 800 o ffotograffau lliw ac mae'n arddangos mapiau dosbarthiad sy'n dangos cofnodion presennol a hanesyddol ar gyfer 893 o rywogaethau. Cyflwynir tueddiadau dosbarthiad ac amlder ynghyd â'r statws Rhestr Goch IUCN ar gyfer Prydain Fawr ac Iwerddon, felly gallwch weld pa wyfynod sydd mewn gwir berygl ac sydd fwyaf o angen cymorth i adfer eu hunain.



Mae siartiau ffenoleg wedi eu cynhyrchu ar gyfer 866 rhywogaeth, sy'n darparu ambell i gipolwg difyr ar sut mae rhai rhywogaethau yn ymateb i newid hinsawdd drwy newid eu ffenoleg, un ai drwy hedfan yn gynt yn y flwyddyn, neu wrth gynhyrchu ail genhedlaeth yn llawer pellach tua'r gogledd nag oedd yn bosibl yn yr 1970au.

Gyda'r hinsawdd ac amodau amgylcheddol yn newid yn barhaol yng Nghymru ac yn ehangach, mae gwyfynod yn rhywogaethau dangosol hynod bwysig yn ogystal â bod yn hardd a dirgel. Mae'r llyfr hwn yn wir drysor. Gobeithiwn y bydd yn cael ei ystyried fel ychwanegiad hanfodol i lyfrgell bersonol unrhyw un sy'n hoffi gwyfynod. Gallwch ei brynu yma.

Sefyllfa Natur yng Nghymru

Cyhoeddwyd adroddiad Sefyllfa Natur 2019 ym mis Hydref; mae ar gael i'w lawrlwytho ar-lein ac mae crynodeb byr ar gyfer Cymru. O'r 6,500 rhywogaeth a aseswyd yng Nghymru, mae 523 (8%) mewn perygl ar hyn o bryd o ddiflannu o'r DU. 666 rhywogaeth (17%) mewn perygl o ddiflannu o Gymru, a 73 arall (2%) eisoes wedi diflannu o'r tir. Nodwyd hefyd bod:

- Prinhad o 52% yn amlder gloÿnnod byw ers 1976.
- **46% o rywogaethau yn dangos newidiadau mawr** yn y ffordd y maen nhw wedi eu dosbarthu ledled rhanbarthau.
- O ran newyddion da, **mae adferiad o 37% wedi digwydd yn y nifer o adar sy'n nythu** ers 1994. Gyrrir hyn gan adferiad llond llaw o rywogaethau o nifer isel iawn a rhywogaethau sy'n cytrefu. Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio rhywfaint ar y ffaith bod **cyfanswm nifer adar sy'n nythu wedi gostwng o 44 miliwn yn y DU rhwng 1967 a 2009.**
- Fe ymddengys bod cynnydd hefyd yn amlder rhywogaethau o ystlumod, gan fod saith o famaliaid Cymru (y gwningen a chwe math o ystlum) **43% yn uwch** nag yn 1998.

Mae llawer rhywogaeth ar fin diflannu o'r tir, yn cynnwys y rhai y mae AS yn eiriol drostyn nhw, sydd I gyd ar rhyw fath o restr 'mewn perygl'.

Rydym yn eich annog i barhau â'r gwaith da ac eiriol mewn unrhyw ffordd allwch chi dros eu hadferiad. Nid newyddion drwg yn unig sydd yn yr adroddiad ac mae sawl peth all cynghorau, dinasyddion a busnesau eu rhoi ar waith i wneud eu rhan. **Ond, mae hi'n hanfodol ei fod yn parhau'n uchel ar yr agenda yng Nghymru, fel ein bod yn gallu creu cynefinoedd newydd, gwreiddio cynaladwyedd ar dir ac yn y môr, a rhoi diwedd i lygru.**

Beth yw prosiect Pencampwyr Rhywogaethau Cyswllt Amgylchedd Cymru?

Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn gytundeb rhyngwladol i warchod ein bywyd gwyllt gyda tharged i atal colli bioamrywiaeth erbyn 2020. Mae dull Cymru o reoli adnoddau naturiol drwy'r dull ecosystem - fel y'i hymgorfforir yn Neddf yr Amgylchedd - yn gorfodi diogelu rhywogaethau rhag colli cynefinoedd, llygredd a datblygiadau niweidiol. Trefnir Hyrwyddwyr Rhywogaethau gan Cyswllt Amgylchedd Cymru a'n chwaer Ddolenni yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Gofynnir i ASau - ochr yn ochr ag Aelodau yn Llundain, Yr Alban, Gogledd Iwerddon - i roi cymorth gwleidyddol i amddiffyn bywyd gwyllt sydd dan fygythiad. Drwy fod yn Bencampwr Rhywogaethau, gall Aelodau'r Cynulliad ddysgu oddi wrth aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru am y rhywogaethau, mynd ar ymweliadau safle i weld lle ceir hyd iddynt yn eu hetholaeth a dysgu am yr hyn sydd angen ei wneud i atal eu dirywiad. Aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru isod yw'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect.